



ARDAL GWELLA BUSNES

agbColwynbid  
BUSINESS IMPROVEMENT DISTRICT

# Newyddlen

Mawrth  
2018

[www.colwynbid.co.uk](http://www.colwynbid.co.uk) • E: [info@colwynbid.co.uk](mailto:info@colwynbid.co.uk) • Ff: 01492 588374  
[www.facebook.com/bayofcolwyn](https://www.facebook.com/bayofcolwyn) • [www.twitter.com/colwynbid](https://www.twitter.com/colwynbid)

## Croeso i Ail Adolygiad Blynyddol Ardal Gwella Busnes Colwyn



MAE ARNOM  
NI EICH ANGEN

**CHI!**

Busnesau'r ardal sy'n penderfynu sut y caiff arian yr Ardal Gwella Busnes ei wario, drwy ein fframwaith o weithgorau, byrddau a chyfarwyddwyr. Mae arnom ni angen pobl fusnes fel chi i ddweud wrthym ni pa brosiectau a all eich helpu chi a'r gymuned fusnes ehangach. Anfonwch neges at [info@colwynbid.co.uk](mailto:info@colwynbid.co.uk) i ddysgu mwy am sut y gallwch chi gymryd rhan a mynegi'ch barn. Arbenigedd pobl fusnes leol yw adnodd gorau'r ardal!

Yn y ddogfen hon rydyn ni'n amlygu llwyddiannau allweddol, materion ac ymrwymadau Ardal Gwella Busnes Colwyn i'r dyfodol, yn ogystal â darparu gwybodaeth hanfodol am ein Cyfarfod Blynyddol.

Mae fersiwn lawn o'r ddogfen, copi o'r Cynllun Busnes, Cynllun Cyflawni Prosiect a gwybodaeth fanwl am brosiectau diweddar, cyfredol a phrosiectau i ddod, ar gael ar wefan yr Ardal Gwella Busnes yn [www.colwynbid.co.uk](http://www.colwynbid.co.uk).

## Ein Hail Flwyddyn

Mae'r ail flwyddyn wedi bod yn llawn llwyddiannau a heriau, wrth i'r Ardal Gwella Busnes sefydlu ei hun. Rydyn ni wedi gweld newidiadau cadarnhaol ar hyd a lled yr ardal, wrth i ni godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo busnesau ar draws pob sector, gan annog twf a buddsoddiad yn yr ardal. Rydyn ni'n edrych ymlaen at 2018-19, gyda nodau clir, tîm cryf a mewnbwn ardderchog gan y busnesau sy'n cymryd rhan.

## Hysbysiad am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 – Cofrestrwch rwan i gael eich pleidlais!

Bydd Cyfarfod Cyffredinol yr Ardal Gwella Busnes yn cael ei gynnal ar 20 Mehefin 2018. Dyma gyfle i bob busnes yn yr Ardal ddod i wrando ar wybodaeth bwysig am gynnal yr Ardal ac, yn allweddol, ethol cyfarwyddwyr ar y Bwrdd Strategol; y corff sy'n llywodraethu'r Ardal Gwella Busnes. Rhaid i fusnesau fod yn aelodau fel mae wedi'i nodi yn neddfwriaeth Ardaloedd Gwella Busnes i bleidleisio. Gallwch gofrestru ar ein gwefan unrhyw bryd. Gallwch ddod yn aelod am ddim, ond ni fydd yn awtomatig. I gael gwybod mwy ac i lenwi ffurflen aelodaeth ewch i [www.colwynbid.co.uk/membership](http://www.colwynbid.co.uk/membership) neu anfon e-bost at [info@colwynbid.co.uk](mailto:info@colwynbid.co.uk). Mae angen cyflwyno ffurflenni erbyn 20 Mehefin 2018.

# Uchafbwyntiau Prosiectau 2017-18

**Arwyddion Mochdre** - Arwyddion Mochdre - Mae'r gwaith ymgynghori gyda'r Adran Briffyrdd ar gyfer arwyddion newydd ym Mochdre wedi bod yn llwyddiannus a bellach wedi'i gwblhau. Cyflwynwyd cais llawn am ganiatâd cynllunio ffurfiol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n ddiweddar. Pan mae caniatâd hysbysebu wedi'i roi, bydd dyluniadau ar gyfer arwyddion newydd yn cael eu comisiynu yn y gobaith o osod yr arwyddion yn fuan yn haf 2018. Pan mae'r cymal hwn ar ben, bydd arwyddion cyson yn cael eu cyflwyno ar draws yr Ardal Gwella Busnes.

**Offer Stryd** - Rydyn ni wedi prynu meinciau newydd a fydd yn dod yn lle rhai o'r meinciau treuliedig a'r rhai er gwaeth sydd o amgylch pentref Llandrillo yn Rhos. Rydyn ni wedi ceisio prynu meinciau sy'n wyrdd i'r amgylchedd, o 100% o ddeunydd wedi'i ailgylchu, sy'n gwrthsefyll fandaliaeth ac sydd ddim angen gwaith cynnal. Byddwn yn newid yr offer stryd ym mhob ardal ym Mae Colwyn.

**Gofalwyr yr Ardal Gwella Busnes** - Rydyn ni wedi ymuno â Chydweithfa Crest gan dderbyn grant o £10,000 gan Gwynt y Môr i greu tîm cynnal a chadw i Fae Colwyn. Bydd y tîm yn cynnwys 2 ofalwr rhan amser a fydd yn gwneud ystod o dasgau allanol, fel cynnal a chadw tir, peintio a thrwsio a thaclusor Ardal yn gyffredinol. Bydd ffurflen i wneud cais am waith cynnal ar gael ar wefan Ardal Gwella Busnes Colwyn i fusnesau sy'n talu ardoll i'w chwblhau a'i chyflwyno ar gyfer unrhyw ofynion cynnal a chadw.

**Cynllun Ffyddlondeb Bae Colwyn** - Mae ymateb gwych wedi bod gan fusnesau Bae Colwyn. Rydyn ni ar hyn o bryd yn gweithio ar ddyluniad ar gyfer llyfryn ffyddlondeb i hysbysebu'r busnesau sy'n cymryd rhan a'u cynigion. Bydd y llyfrynau'n cael eu dosbarthu i bob busnes sydd ynghlwm â'r cynllun ac y tu allan i Ardal Gwella Busnes Colwyn hefyd.

**Cynllun Arriva Ardal Gwella Busnes Colwyn** - Mae Ardal Gwella Busnes Colwyn wedi cyfarfod â chynrychiolydd o Arriva'n ddiweddar i

drafod cynllun gostyngiadau. Yn fuan, byddwn yn rhannu arolwg ymysg y busnesau i gael ei gwblhau gan y perchnogion a'r gweithwyr.

**Goleuadau Garlant Llandrillo yn Rhos** - Mae Llandrillo yn Rhos wedi gofyn am oleuadau garlant ar hyd lan y môr. Mae'r ardal ar hyn o bryd yn y camau cynllunio ar gyfer ailddatblygu ac mae tîm yr Ardal Gwella Busnes wedi dod at Adran Goleuo Strydoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sicrhau bod colofnau'n lle'r rhai presennol yn addas ar gyfer goleuadau garlant.

**Teledu Cylch Caeëdig Symudol** - Mae'r Ardal Gwella Busnes wedi prynu camera teledu cylch caeëdig symudol i'w osod mewn mannau problemus i geisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Cynllun Diffibrilwyr Cyhoeddus** - Rydyn ni wedi ymuno â Colwyn Bay Watersports i gyflwyno cais grant i Gwynt y Môr yn y gobaith o gael cyfraniad cyllid at y prosiect hwn i greu cymuned fwy diogel. Mae'r Ardal Gwella Busnes yn gobeithio gosod 8 diffibrilydd yn yr Ardal a fydd ar gael i'r gymuned fusnes a'r cyhoedd 24 awr y dydd.

**Hyfforddiant â Chymhorthdal ac am Ddim** - Mae'r Ardal Gwella Busnes yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant lleol i gytuno ar gyrsiau â chymhorthdal neu am ddim i fusnesau sy'n dymuno cael hyfforddiant hanfodol. I gael cyllid ar gyfer y lleoedd hyn, rhaid i fusnesau fod yn talu ardoll yr Ardal Gwella Busnes a dangos y bydd yr hyfforddiant newydd yn eu helpu i dyfu neu fynd i farchnadoedd newydd.

**Rheiliau** - Mae gwaith peintio rheiliau yn Hen Golwyn a Llandrillo yn Rhos wedi dod i ben. Cawsant eu peintio'n las ac rŵan mae'r ardal yn edrych yn lanach ac yn oleuach. Mae llawer o fusnesau a thrigolion yn Ardal Gwella Busnes Colwyn wedi rhoi sylwadau cadarnhaol.

**Ffordd yr Orsaf Bae Colwyn** - Mae'r Ardal Gwella Busnes wedi cyflwyno syniadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy ymgynghorydd i wella hygrychedd canol Bae Colwyn, ac mae'r Cyngor yn eu hystyried ar hyn o bryd.

## Materion yr Ardal Gwella Busnes

### Cyllid a Chasgliad Ardoll

Mae'r gyfradd gasglu ar gyfer ardoll yr Ardal Gwella Busnes ar ddiwedd yr ail flwyddyn dros 95% gyda referniw blyneddol o oddeutu £254k. Gan fod llawer o'r prosiectau yn rhai hir dymor ac ar raddfa fawr, bydd cyllidebau blyneddol yn cael eu trosglwyddo ymlaen i'r flwyddyn ganlynol ac ni fydd unrhyw referniw yn cael ei gollu neu ei leihau o ganlyniad i beidio â chael ei wario ar unwaith.

### Cyllid Grant

Fel rhan o'n cyfrifoldeb i ddarparu gwerth ychwanegol i dalwyr AGB, byddwn yn ceisio ariannu prosiect cyfan neu ran o brosiect â chyllid grant lle bo hynny'n bosibl, ac felly'n cynyddu faint o arian sy'n cael ei fuddsoddi i gylch yr Ardal Gwella

Busnes yn sylweddol. Bydd amcanion y Cynllun Busnes bob amser yn arweiniol ar unrhyw gais a wneir am gyllid grant yn ogystal ag anghenion y busnesau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym wedi sicrhau £23,000 o gyllid ychwanegol yn y flwyddyn ddiwethaf.

### Cyfarfodydd y Bwrdd Strategol a Grwpiau Amcanion

Mae Grwpiau Amcanion yn gyfarfodydd agored am brosiectau penodol ac mae croeso i unrhyw fusnes yng nghylch yr Ardal Gwella Busnes eu mynychu. Ceir manylion am ein cyfarfodydd Gweithgorau nesaf ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn yr wybodaeth hon, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennym eich cyfeiriad e-

bost cyfredol ac eich bod yn ein dilyn ni ar Facebook a Twitter.

Mae'r Byrddau Amcanion yn cynnwys busnesau lleol sy'n talu'r ardoll ac sydd â diddordeb gweithredol wrth gyfarwyddo gwaith yr Ardal Gwella Busnes. Er mwyn sicrhau y gellir rheoli'r cyfarfodydd hyn a bod y Bwrdd yn gynrychiadol o'r holl Ardal Gwella Busnes, mae nifer y lleoedd ar y Bwrdd yn gyfyngedig. Fodd bynnag, rydym yn croesawu aelodau newydd sy'n galluogi'r Bwrdd i gynrychioli'r sbectrwm o fusnesau rydym yn eu gwasanaethu yn well.

Os oes arnoch angen copi o'r llythyr hwn yn Saesneg cysylltwch ag AGB Colwyn.

Should you require a copy of this Newsletter in English, please contact Colwyn Bid.